

Cofnod Darllen

Bydd angen dod a'r cofnod darllen yn ei hôl pob Dydd Llun wedi ei llofnodi gan riant/gwarchodwr.

Annogir chi i gyd-darllen neu i wrando ar eich plentyn yn darllen yn ddyddiol am gyfnodau byr.

Ni allwn bwysleisio pa mor bwysig yw ymarfer darllen adref!

Blwyddyn 4, 5 a 6

Tymor Y Gwanwyn 2016

Llyfr y Tymor

Cymraeg: Bwli a Bradwr

Ymarfer Corff

Mae'n bwysig cofio'r dillad priodol ar gyfer pob gwers!

Dydd Llun	Nofio
Dydd Mawrth	Clwb Dal i Fynd
Dydd Iau	Clwb Dal i Fynd
Dydd Gwener	Chwaraeon (tu allan)

Yn ystod y tymor hwn byddem yn edrych ar Y Gofod fel prif thema a chawn wneud llawer o waith celf a cherddoriaeth fydd yn deillio o hyn. Byddem yn dysgu am yr holl blanedau yn Nghysawd yr Haul a sut maent yn debyg/wahanol i'n planed ni. Byddem hefyd yn edrych ar Oes Fictoria yn y gwersi Hanes a sut mae ein bywyd pob dydd ni nawr yn wahanol i fywyd yn Oes Fictoria. Byddem hefyd yn ymchwilio i'r wlad Lesotho yn y gwersi Daeryddiaeth gan gymharu hinsawdd ac amgylchedd y wlad â Chymru. Cawn hefyd ddysgu am bererindod a'i bwysigrwydd mewn sawl crefydd.

Iaith/Llythrennedd

Yn ystod y tymor hwn byddem yn astudio'r llyfr Bwli a Bradwr yn y gwersi Cymraeg ac yn ei ddefnyddio fel sail i ddatblygu sawl ffurf ysgrifennu llenyddol ac anllenyddol. Yn Saesneg byddem yn edrych ar gerddi ac ysgrifennu creadigol gan ganolbwyntio ar nodweddion gramadegol megis 'similes, onomatopoeias, comparisons & personification'

Gwyddoniaeth

Y Gofod: Byddem yn edrych ar y gofod ac yn dysgu am Gylichred yr Haul a sut mae'r Ddaear yn perthyn iddi.

Mathemateg/Rhifedd

Siâp, Safle a Symud – Byddem yn dysgu am nodweddion siapiau 2D a 3D, sut i gyfrifo perimedr ac arwynebedd siâp ac edrych ar onglau.
Arian – Byddem yn dysgu sut i ddefnyddio a chymhwyso arian er mwyn datrys problemau.
Amser – Byddem yn dysgu sut i ddweud yr amser ar gloch analog a digidol.

Ymweliadau Addysgol

Yn ystod y tymor hwn rydym wedi trefnu i'r plant cael gweithdy ar blanedau gan gwmni 'Techniquest'.



Thema: Y Gofod

Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod ar brynhawn Dydd Gwener a bydd angen ei dderbyn yn ôl bore Dydd Llun (os oes newid bydd hyn yn cael ei gofnodi). Yn arferol mae'r gwaith cartref bob amser yn ymarfer yr hyn rydym wedi ei ddysgu yn y dosbarth.